Cenn@d

TACHWEDD 6 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 193

# Ar drothwy Sul y Cofio – atgofion a delweddau

Bu'r teledu'n gyfrwng anhygoel i rai o'm cenhedlaeth i. Roeddwn yn naw oed pan gawsom deledu yn fy nghartref am y tro cyntaf a gweld lluniau symudol o ddigwyddiadau real ym mhen draw'r byd. Wn i ddim pryd y cawsom weld lluniau o bobman yn 'fyw' ar ein bwletinau newyddion, gyda gohebwyr o wledydd Prydain allan yn adrodd yr hyn a welsent, a'r gwylwyr fel pe baent yn sefyll wrth ochr sgwâr Tiananmen neu wrth y pwll nofio mewn campau Olympaidd. Gwelwn beth sy'n digwydd yn Wcráin ac yn Gaza, Lebanon ac Iran fel pe baem yno, yn gynulleidfa i gyflafan ein dydd. Ai da, ai drwg hyn?



Perygl y math yma o deledu, a'i weld yn ddyddiol, yw ein bod yn dod mor gyfarwydd â gweld cyrff ar lawr neu adeiladau wedi dymchwel fel ein bod yn methu teimlo'r peth byw ac arswydus yw rhyfel a'i ganlyniadau. O glywed am drigolion tref gyfan yn cael eu gorfodi i symud filltiroedd lawer o'u cartrefi, cyn i'r dref fod yn darged bom, ni allwn amgyffred realiti'r digwydd. Bydd gohebwyr medrus fel Jeremy Bowen yn dadansoddi'r digwyddiadau a'u hoblygiadau. Ac ar ôl gwylio'r rhaglen, gallwn wneud paned, edrych ar raglen ar fyd natur neu wylio ffilm sebonllyd, a'r bwletin newyddion wedi mynd ar goll gyda'r hysbysebion a fu.

Pe byddai modd i drigolion gwledydd Prydain weld y brwydro ar y Somme neu ganlyniadau'r bomio ar Berlin a Dresden, a fyddent yn fwy neu'n llai cefnogol i ryfel, tybed? Mae rhai o wleidyddion Prydain, fel Tony Blair, yn hawlio bod yn rhaid i Wcráin a Rwsia



ddod i gyfaddawd, a hynny'n golygu bod Wcráin yn ildio tir i'w cymdogion trachwantus. Beth fyddai ymateb teuluoedd niferus Wcráin sydd wedi claddu perthnasau i hyn? Yn yr un modd, mae haeriadau Mr Trump y gallai ef ddatrys rhyfeloedd fel y rhai sy'n digwydd yn Gaza ac Wcráin, ymhen dyddiau yn unig ar ôl cael ei ethol yn arlywydd unwaith eto, yn afiach o chwerthinllyd. Nid gêm wyddbwyll yw rhyfel, ond ing i deuluoedd ac aberth milwyr.

Bydd y sawl sy'n prynu pabi coch neu wyn, neu'n sefyll wrth gofadail ym mis Tachwedd yn cofio person (perthynas, mae'n bosibl), nid i ddyrchafu rhyfel ond i gofio a rhyfeddu ag arswyd at y niferoedd a fu farw, pa lifreiau bynnag roeddent yn eu gwisgo. Cefais fy enwi ar ôl fy ewythr a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd. Hyd y gwn, ni fu fy mam yn sefyll wrth gofadail wedyn. Ond roedd holi am fy ewythr yn rhywbeth na fentrais erioed ei wneud, oherwydd gwyddwn am y boen alarus a gariai fy mam ar hyd y blynyddoedd. Ac felly hefyd lu o deuluoedd yn ystod ac ar ôl pob rhyfel.

Mae rhyfel yn magu atgasedd a dialedd ar gyfer y dyfodol, fel y gŵyr plant Gaza yn dda. Wrth i heddychwyr fel fi bleidio achos datrysiadau di-drais i wrthdaro gwleidyddol, ni fyddwn yn bychanu ymroddiad didwyll y sawl a wisgodd lifrai rhyfel, ond yn dadlau dros oresgyn gwrthdaro drwy greu llwyfan cymod. Bydd gweddïo dros heddwch yn golygu cefnogi pob ymdrech i weithio o blaid heddwch yn ein byd. *Shalom*.

*Denzil John*

150 mlynedd ers geni William Nantlais Williams a 120 ers ei eni o'r newydd
Tudalen 2

*Byw'r Weddi,* Trystan Owain Hughes
Tudalen 5

O'r Swyddfa – Newid Cyfnod: Cynhadledd Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop: Budapest, Hwngari, 25–8 Medi 2024
Tudalen 7

# ‘O’r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi …’

# 150 mlynedd ers geni William Nantlais Williams a 120 ers ei eni o’r newydd



Llun a dynwyd o’r beirdd yn Rhydaman, 25 Awst 1904, 120 mlynedd yn ôl. Yn y cefn, o’r chwith: Gwili, Eben Aman Jones, Nantlais a George O. Williams; ac yn y rhes flaen: Gwydderig, Watcyn Wyn a J. T. Job

Pan aned Nantlais yn Llawr-cwrt Gwyddgrug, ger Pencader, sir Gaerfyrddin, yn 1874, dim ond pymtheg mlynedd oedd yna er Diwygiad 1859, ac mae’n debyg bod dylanwad y deffroad hwnnw ar ei deulu. Yn fab i Daniel a Mari Williams, a’r ieuengaf o ddeg o blant, fe’i prentisiwyd gyda gwehydd yn 12 oed. Ond wedi iddo gymryd at bregethu yn 1894, aeth yn fyfyriwr lled aeddfed i Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn ac yna i Goleg Trefeca, coleg y Methodistiaid Calfinaidd yn y de, i baratoi, fel llawer o lanciau ifanc eraill ar droad yr 20fed ganrif, ar gyfer y weinidogaeth.

Cymerodd Nantlais ddiddordeb mewn barddoniaeth yn ifanc a chyhoeddodd gasgliad o’i gerddi, *Murmuron y Nant* (1898), tra oedd yn fyfyriwr yn Nhrefeca. Yn 1899 y cysylltwyd ei enw gyntaf â Rhydaman, lle byddai’n treulio gweddill ei fywyd a lle digwyddodd y fath ‘newid rhyfeddol’ iddo. Yn y flwyddyn honno yr enillodd gadair farddol dan feirniadaeth Watcyn Wyn mewn eisteddfod yn Rhydaman. Yna yn 1900, ac yntau’n dal yng Ngholeg Trefeca, derbyniodd Nantlais alwad i fod yn weinidog ar Eglwys Bethany, Rhydaman, eglwys oedd newydd ei sefydlu yn y dref, ac fe’i hordeiniwyd ef yn 1901. Bu’n weinidog ym Methany o 1900 hyd ei ymddeoliad yn 1944.

Uchelgais Nantlais ar ei ordeiniad, yn ôl ei addefiad ei hun, oedd pregethu mewn cyfarfodydd pregethu a llwyddo fel bardd mewn cystadlaethau eisteddfodol. Ac yn wir roedd galw mawr arno i bregethu yn yr uchel wyliau.

**Diwygiad 1904/1905**

Yn 1904, daeth tro mawr ar fyd i Nantlais wrth i’r Diwygiad oedd wedi dechrau draw yng nghyffiniau sir Aberteifi gwta chwe wythnos ynghynt (Capel Blaenannerch ar 29 Medi, a bod yn fanwl) ymledu a chyrraedd Rhydaman ar benwythnos cyntaf Tachwedd, 120 o flynyddoedd yn ôl. Yno, ac yntau’n dal yn las weinidog a’i fri ar wneud enw iddo’i hun, daeth Nantlais dan argyhoeddiad nerthol, nerthol iawn.

Yn ystod penwythnos Tachwedd 4–6, roedd Joseph Jenkins wedi cael gwahoddiad i arwain cyfarfodydd y Diwygiad oedd wedi lledu i Rydaman. Roedd gan Joseff Jenkins yntau ei ran i’w chwarae yn nechrau’r Diwygiad. Yn 1903 mynychodd gynhadledd efengylaidd yn Llandrindod, cynhadledd o’r enw ‘Keswick in Wales’. Ac wedi’i ddadrithio gan sefyllfa ysbrydol a chenhadol yr eglwysi dan ei ofal (fel ei nai John Thickens, oedd yn weinidog yn Aberaeron ar y pryd), cychwynnodd gyfarfodydd arbennig yn dilyn oedfa’r bore yn ei eglwys yng Ngheinewydd, lle gwelwyd rhagflas o’r hyn fyddai’n cael ei danio yn Niwygiad 1904. Er enghraifft, roedd Florie Evans, un o’r bobl ifanc yng Ngheinewydd, wedi codi cynnwrf ysbrydol ymhlith ei chyfoedion yn un o’r cyfarfodydd hynny wrth godi ar ei thraed a gweiddi: ‘Dw i’n caru Iesu gyda’m holl galon’. Roedd yn arwydd o galonnau lawer a fyddai’n cael eu trawsnewid.

Dyna ddigwyddodd i Nantlais ei hun ar y penwythnos cyntaf hwnnw ym mis Tachwedd 1904 yn Rhydaman. Roedd yr oedfaon yn mynd ymlaen tan 2 a 3 o’r gloch y bore, a’r cyfan mor fendithiol o drefnus, meddai Nantlais ei hun: “Dim ond gorfoleddu a phawb mewn harmoni â’i gilydd.”

Dyma’r digwyddiad y mae John Thickens yn cyfeirio ato yn ei lyfr *Emynau a’u Hawduriaid*, gan gyfeirio at dröedigaeth Nantlais yn Nhachwedd 1904, “Ymwelodd yr Arglwydd yn rasol ag ef yn Niwygiad 1904–5, a rhoes yntau heibio gystadlu mewn eisteddfodau.” Dyma’r profiad a arweiniodd Nantlais i gyfieithu emyn Saesneg R. H. McDaniel, “What a wonderful change in my life has been wrought, / since Jesus came into my heart” â’r geiriau cyfarwydd: “O’r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi, / daeth Iesu i’m calon i fyw.”

Fu Nantlais byth yr un fath wedyn. Roedd wedi ei eni o’r newydd, a phenderfynodd gysegru ei fywyd o’r pryd hwnnw i efengylu a meithrin bywyd ysbrydol yr eglwysi. Ar ôl y Diwygiad daeth Nantlais ei hun i gysylltiad â’r personoliaethau blaenllaw a fynychai’r cynadleddau efengylaidd blynyddol yn Keswick a Llandrindod, ac yn 1917 sefydlodd gynhadledd flynyddol o’r un anian yn Rhydaman. Dyma Gynhadledd y Sulgwyn, Rhydaman, a gynhaliodd draddodiad o bregethu efengylaidd a diwygiadol hyd ddiwedd yr 20fed ganrif. Bu ei lafur ym Methany yn foddion i ddwyn llawer o ffrwyth; i wasanaethu’r twf yno fe godwyd ysgoldy ym Mhantffynnon yn 1904, ac un arall yn Nhir-y-dail yn 1906, ac eglwys yno yn 1911. Adeiladwyd capel newydd ar safle Bethany yn 1930.

**Llafur llenyddol**

Er i Nantlais ymatal rhag cystadlu mewn eisteddfodau ar ôl y Diwygiad, parhaodd i ysgrifennu, gan gysegru ei ddoniau a’i farddoniaeth wedi hynny i ledaenu’r Efengyl. Cyhoeddodd hefyd nifer o ganeuon i blant ynghyd â gweithiau cerddorol eraill. Ni chollodd mo’i ddawn fel bardd telynegol ychwaith, er iddo ymwrthod â chystadlu, fel y dengys ei gasgliad o delynegion, *Murmuron newydd* (1926), a’i rigymau i blant, *Darlun a chân* (1941). Cyn diwedd ei oes, ar gyfrif ei gyfraniad llenyddol, cafodd radd MA er anrhydedd gan Brifysgol Cymru.



(parhad ar y dudalen nesaf)

*‘O’r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi ...’*
*150 mlynedd ers geni William Nantlais Williams a 120 ers ei eni o’r newydd*
*(parhad o dudalen 2)*

Cyfansoddodd lawer o emynau i blant; yn wir, prin y bu neb yn fwy llwyddiannus nag ef fel emynydd i blant. Cyhoeddwyd yr emynau hyn mewn tri chasgliad: *Moliant Plentyn*, rhan I (1920) a rhan II (1927), a *Clychau’r Gorlan* (1942).

Ceir trafodaeth arno fel emynydd a bardd, ynghyd â rhestr o’i holl gynhyrchion o’r wasg, yn *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, I, rhif 4 (1971), tud. 77–99. Ysgrifennodd lawer i’r llu cylchgronau a olygwyd ganddo, ac i’r *Goleuad*. Ei gyfraniad ysgrifenedig olaf yw ei atgofion a ysgrifennodd yn 1955 a’u cyhoeddi yn 1967 dan y teitl, *O gopa Bryn Nebo*.

Roedd gan Nantlais hefyd faich arbennig dros Gristnogion Cymraeg y Wladfa a bu’n gohebu am flynyddoedd ag Eluned Morgan o Batagonia. Yn 1938, ar ei gwahoddiad, fe aeth Nantlais ar daith bregethu yno am dri mis. (Mae’r ohebiaeth rhyngddo ac Eluned Morgan yn *Tyred drosodd*, 1977, a olygwyd gan Dafydd Ifans.)

**Nantlais y diwinydd Cristnogol a’r arweinydd enwadol**
Roedd Nantlais yn byw mewn oes a welodd Gymru’n troi yn erbyn ei diwinyddiaeth Galfinaidd draddodiadol, a seciwlariaeth yn magu gafael cryfach ar bobl Cymru ac ar ei enwad ei hun. Ofn Nantlais oedd i’r enwad lacio’i afael ar seiliau athrawiaethol y Diwygiad Methodistaidd. Gwrthwynebai Nantlais yn ffyrnig unrhyw bwyslais oedd yn cynnwys elfennau a fyddai o bosib yn gollwng gafael ar y ddiwinyddiaeth a etifeddwyd gan y tadau Methodistaidd, neu o leiaf yn ei llacio, e.e. dwyfoldeb Iesu Grist, atgyfodiad corfforol Iesu Grist, credu yn y gwyrthiau, awdurdod y Beibl ac mai Iesu Grist ydyw’r unig ffordd at Dduw.

Daeth Nantlais yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 1940 ac i gadair Sasiwn De Cymru yn 1943.

**Gwaddol personol Nantlais**
Mab Nantlais oedd y Prifathro Rheinallt Nantlais Williams (1911–93), darlithydd a Phrifathro’r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth, ac un o athronwyr praffaf ei genhedlaeth. Ŵyr Nantlais ydy’r Athro Stephen Nantlais Williams, Athro Emeritws Coleg y Frenhines, Belfast. Bellach, mae Stephen ymhlith athronwyr Cristnogol amlyca’r byd. Mae plant Stephen yntau i gyd yn dilyn yr un gwersyll â’u hen daid ac yn ymroi yng nghenhadaeth Eglwys Iesu Grist. Bu Matthew, ei fab, yn gwneud gwaith cenhadol yn Malawi, yn ddiwinydd yng Nghaergrawnt ac erbyn hyn mae’n cyflawni gwaith cenhadol arloesol yng Ngogledd Iwerddon (Fe’i gwelsom ar raglen *Songs of Praise*, 6 Hydref 2024). Olyniaeth dda yn wir i’r gwehydd 12 oed o Lawr-cwrt, Gwyddgrug, Pencader.

*W. Bryn Williams*
*Pwllheli*

(Addaswyd o ddarlith ddiweddar yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd i gofio 150 mlynedd ers geni Nantlais)

## Oedfa i ddiolch a llongyfarch Nest Jenkins, Lledrod

Cynhaliwyd oedfa arbennig yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod, nos Sul, 6 Hydref. Nid yn unig yr oedd hon yn oedfa ddiolchgarwch, ond roedd hefyd yn oedfa i longyfarch un o’n hieuenctid disglair, Nest Jenkins, Fferm Ynysforgan, ar ennill Gwobr Goffa Llwyd o’r Bryn yn y Brifwyl eleni. Nid yw’r llwyfan hwn yn ddieithr i Nest gan iddi ennill y Rhuban Glas Offerynnol i Ieuenctid yno rai blynyddoedd yn ôl.

Wedi i Beti Griffiths groesawu tyrfa deilwng o deulu a ffrindiau oedd wedi dod ynghyd, daeth Dafydd Caeo Watkin ymlaen i gyflwyno’r emyn cyntaf, ‘Cerddwn ymlaen i’r yfory’ (Peter Thomas). Yna, darllenodd Rhiannon Parry ‘Salm y Genedl’ (Jennie Eirian Davies) cyn i’r Parch. John Roberts (Radio Cymru) ein harwain mewn gweddi. Braf fu cael ei gwmni ef a’i deulu gan fod Nest bellach yn un o’i gyd-weithwyr ar y rhaglen *Bwrw Golwg*.

Daeth un arall o’n hieuenctid ymlaen i roi datganiad, sef Efan Williams, ac nid yw llwyfan y Brifwyl yn ddieithr iddo yntau. Yna, tro’r Athro Ioan Williams oedd hi i gyflwyno anrheg i Nest, sef darn o grefftwaith cywrain (colograff) o waith Marian Haf, un arall o’n hartistiaid ifainc a fagwyd yn yr ardal. Roedd y geiriau ar y darlun yn addas iawn, o gofio’r amgylchiad: ‘O bydded i’r heniaith barhau’. Mared Parry gyflwynodd dusw o flodau lliwgar i Nest ar ran y plant.

Ymatebodd Nest yn ei ffordd wylaidd arferol, gan ddiolch am bob cefnogaeth. Uchafbwynt y noson oedd clywed Nest yn llefaru un o’r darnau a lefarodd yn y Brifwyl, sef ‘Ffenest at y Fynwent’ allan o *Stafell fy Haul*, gan Manon Rhys. Yma, mae Manon yn dwyn i gof ddyddiau ei hieuenctid pan oedd ei thad, Kitchener Davies, yn ddifrifol wael yn ei ystafell wely yng Nghwm Rhondda. Er y tristwch, mae’n dod â gwên i’r wyneb wrth rannu’r atgofion am wyliau yn Aberystwyth yn cerdded y prom, ac yn cofio’r ‘Laughing Policeman ar y Pier, “Ha-ha-ha-ha-ho-ho-! Oh! I’ll laugh until I die!”’ Yn sicr roedd hwn yn gyflwyniad dirdynnol, ac anodd oedd dal y dagrau ’nôl.

Braf fu gwrando hefyd ar Megan (Sarnau Fawr, gynt) a chyfnither i Nest yn cyflwyno englyn i’w llongyfarch:

Gydag wyneb sy’n gohebu, – a llais
sy’n rhoi lliw a denu,
dy eiriau sy’n dy yrru
a’r gra’n sydd yno mor gry.

Derbyniwyd englyn hefyd oddi wrth y Prifardd Jim Parc Nest, y cyn-Archdderwydd a chyn-enillydd Gwobr Llwyd o’r Bryn, yn ogystal â phriod yr awdur, Manon Rhys:

Cof Manon ddaeth yn onest, – o eiriau
dy enaid mewn gorchest,
anerchwn nawr dy orchest,
ein bri ni yw dy wobr, Nest.

Dau englyn i’w trysori yn wir.



Caiff Nest ei hyfforddi gan Elin Williams, Llanbedr Pont Steffan, a enillodd Wobr Goffa Llwyd o’r Bryn ei hun ym Mhrifwyl y Bala yn 2009.

I orffen y noson, cyflwynodd Efan Betts, un o ieuenctid yr eglwys, eiriau emyn mawr Lewis Valentine, ‘Dros Gymru’n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri’, cyn i bawb gyfranogi o’r lluniaeth blasus oedd wedi cael ei baratoi gan ffrindiau.

Bu’n nos Sul i gofio a llongyfarch. Dymunwyd yn dda i Nest yn ei gyrfa ym myd y cyfryngau, ac yng ngeiriau un o edmygwyr mawr Llwyd o’r Bryn, Gerallt Lloyd Owen:

Arweiniaist blant y bryniau – a rhoddaist
Ruddin yn eu gwreiddiau.

Diolch am y rhuddin. Dal ati – rydym yn falch ohonot yn Lledrod a diolch iti am gofio dy filltir sgwâr.

*Beti Griffiths*

# O Gefn Gwlad

### Dwy adnod a dau gofio

Ni allaf feddwl am un heb feddwl am y llall, na chofio un heb gofio'r llall. A pha ryfedd, gan fod, yng ngeiriau Waldo, 'rhwydwaith dirgel Duw yn cydio pob dyn byw'. Un yw Gwilym Ceiriog Evans fu farw yn 1995, a'r llall yw Jim Clarke, a'n gadawodd yn ddiweddar iawn.

Wrth gofio am 'Gwil', daw cymal o adnod i fy meddwl. Roedden ni'n ffrindie mawr yng Ngwyddelwern slawer dydd: Gwil, John Maerdy Bach a fi, ac yn driawd yn ein Parti Noson Lawen. Gweithio yn Adran Ariannol Cyngor Sir Ddinbych yr oedd Gwil nes iddo, pan oedd dros ei ddeg ar hugain, benderfynu mynd i'r weinidogaeth, a hynny i raddau oherwydd dylanwad ei weinidog, Wynford Jones, arno. A dyna arwyddocâd yr adnod.

Yn Llyfr yr Actau mae stori am Philip yr Efengylwr yn cael gorchymyn i fynd i lecyn arbennig ar y ffordd lle roedd swyddog pwysig yn llys brenhines Ethiopia yn teithio mewn cerbyd. A'r gorchymyn a gafodd oedd: 'Dos yn nes, a glŷn wrth y cerbyd yma.' Hynny er mwyn iddo esbonio rhan o'r Ysgrythur i'r swyddog ac yn y man ei gael i gredu.

Tra glynodd John wrth gerbyd amaeth a minnau wrth gerbyd addysg, atebodd Gwil yr alwad fel Philip, ac aeth i lynu wrth gerbyd yr efengyl. Ac yr oedd i'r glynu hwnnw ei ganlyniadau – nid y lleiaf ohonynt oedd cael athro ifanc yn Nyffryn Clwyd o'r enw Jim Clarke i newid cyfeiriad ei fywyd, fel y gwnaeth Gwil ei hun, a dod yn weinidog yr efengyl mewn sawl eglwys, ac yn Warden Coleg y Bala am gyfnod i arwain ieuenctid ein cyfundeb. A dywedodd Jim yn ei ddarllediad olaf o *Caniadaeth y Cysegr* mai Gwil oedd ei dad yn y ffydd, un fu farw yn llawer rhy gynnar, ond nid cyn trosglwyddo baton cred i eraill, gan gynnwys Jim.



Ie, Jim, person arbennig iawn, ac yr oedd inni gyswllt teuluol gan fod ei wyrion bach o, Elis a Nedw, yn orwyrion i minnau. Dau yr oedd o'n meddwl y byd ohonynt, a hwythau ohono fo. Ac wrth gofio amdano daw cymal o adnod arall i'r meddwl, o Lyfr Daniel y tro hwn. Yn ôl yr hanes, bwriwyd tri llanc – Shadrach, Mesach ac Abednego – i'r ffwrn dân ar orchymyn y brenin am iddynt wrthod plygu i'r ddelw aur. Ond dychrynwyd y brenin Nebuchodonosor pan welodd fod pedwar, nid tri, yn y ffwrn, a'r pedwar yn iach eu crwyn. Ac yna daw'r rhan berthnasol o'r adnod: 'A dull y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw.'

Yn ei weinidogaeth a'i fywyd, yr oedd Jim yn berson arbennig – mor hynaws, mor garedig, mor gymwynasgar. Un o ragorolion ein daear, gyda llais oedd yn awgrymu addfwynder; a chymaint tlotach ein cymdeithas o'i fyned, gymaint gwacach. Ac mewn byd sy'n gwegian dan faich rhyfel a gormes, ni alla i ond meddwl, pe bai gan ein harweinyddion, a phob creadur arall mewn gwirionedd, ddeuparth nodweddion Jim – ei gariad a'i gred, ei synnwyr o wasanaeth, ei radlonrwydd a'i ymroddiad dros y da – y byddai ein byd yn llawer mwy heddychlon, a phobl yn caru yn hytrach na chasáu ei gilydd.

Gwil yn cael ei ddylanwadu gan Wynford, Jim gan Gwil, a 'rhwydwaith dirgel Duw' yn gweithio i gydio'r tri hyn yn ei gilydd, i weithredu cyfiawnder a chariad ar ein daear. Diolch amdanynt, ac yn arbennig y dyddiau hyn am y Parchedig Jim Clarke, un yr oedd ei rodiad ar ein daear yn debyg i ddull y pedwerydd.

*Elfyn Pritchard*

# Gweddi dros Affrica Is-Sahara

Mae eglwys Affrica yn gofyn inni sefyll gyda nhw yn erbyn erledigaeth dreisgar.

Mae miliynau o Gristnogion yn Affrica Is-Sahara yn wynebu erledigaeth dreisgar oherwydd eu ffydd. Yn ôl ymchwil Rhestr Gwylio'r Byd y mudiad Open Doors, roedd dros 90% o'r Cristnogion a laddwyd oherwydd eu ffydd y llynedd yn byw yn Affrica Is-Sahara. Yn ogystal, cynyddodd nifer y gwledydd yn Affrica Is-Sahara a gofnododd lefelau uchel iawn o drais yn erbyn Cristnogion, o 13 yn y flwyddyn flaenorol i 15 y llynedd. Mae'r trais cynyddol hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan eithafwyr Islamaidd sy'n manteisio ar ansefydlogrwydd gwleidyddol yn y rhanbarth.




"Pan ddaw'r terfysgwyr i eglwysi a dod o hyd i Gristnogion, maen nhw'n dweud wrthyn nhw fod amser Cristnogaeth ar ben, ac y dylen nhw droi at y grefydd Islamaidd," meddai'r Parchedig Soré yn Burkina Faso. Bu'n rhaid iddo ef a'i deulu ffoi rhag eithafwyr Islamaidd, ac maent bellach yn byw mewn dwy babell mewn ardal ynysig gydag aelodau bregus eraill o'u cymuned. "Maen nhw'n rhybuddio Cristnogion i roi'r gorau i gynnal gwasanaethau. Ar ôl rhybudd, pan fyddan nhw'n dod yn ôl yn ddiweddarach ac yn dod o hyd i chi yn yr eglwys, maen nhw'n eich lladd chi."

Yn ôl ymchwil Open Doors, mae 16.2 miliwn o Gristnogion yn Affrica Is-Sahara yn cael eu dadleoli gan drais a gwrthdaro. Ond mae'r Parchedig Soré yn parhau i fod yn hyderus yn yr Iesu. "Rwy'n credu ein bod ni wedi ein dadleoli, ond nid yw'r Iesu wedi'i ddadleoli o'n bywydau ac ni fydd hynny byth yn digwydd," meddai. "Mae bob amser gyda ni."

# *Byw'r Weddi,* Trystan Owain Hughes

## (cyf. Gwilym Wyn Roberts), Cyhoeddiadau'r Gair, 2024, 124tt, £7.99

Yn ddiweddar, mae'r Eglwys Bresbyteraidd wedi bod yn rhannu cyfres o glipiau byr ar YouTube yn dangos beth y mae gweddi yn ei olygu i wahanol bobl, a rhai o'r cyfranwyr yn codi cwestiynau ynghylch gweddi. Gellid crynhoi'r ymatebion i eiriau megis 'perthynas', 'tawelwch', 'gwrando', ac yn y blaen.

Yn yr un modd, rhoi llais i'n cwestiynau ni i gyd a wna'r gyfrol hon, ond yn bennaf oll, cymhelliad i *weithredu* sydd yma. Nid ydym i aros ar ein gliniau; i'r gwrthwyneb, medd Trystan Owain Hughes: 'Swyddogaeth Gweddi'r Arglwydd yw, nid i'n cadw yn gynnes a chysurus yn ein gwlậu, ond, yn hytrach, i'n deffro o'n trwmgwsg.' Ein herio a wna'r weddi, a'n galw i ffordd wahanol o fyw. I'r sawl sy'n hen gyfarwydd – ac yn or-gyfarwydd, efallai - ậ'r weddi, mae yma ddehongliad ffres ohoni sy'n cynnig ffordd i ystyried geiriau Iesu o bersbectif newydd.


Nid dyma gyhoeddiad cyntaf Trystan; mae eisoes wedi ennill ei le fel awdur a darlithydd, ac mae ei arddull gartrefol, yn llawn cyfeiriadau cyfoes, yn gwneud ei waith yn hawdd i'w ddilyn. Gall dynnu eglurebau o fyd nofelau, ffilmiau a dramậu, gan rychwantu gweithiau o John Bunyan i Bruce Lee! Yn sylfaen i'r cyfan y mae deallusrwydd clir, ynghyd ậ phrofiad ysbrydol dwfn, ac y mae'r gwaith drwyddo draw wedi ei angori yn y diwylliant cyfoes.

Wrth reswm, mae yna rai agweddau ar y diwylliant hwnnw sy'n peri gofid iddo, megis yr unigolyddiaeth sy'n nodweddu cymaint o'r meddwl cyfoes, yn grefyddol ac yn gymdeithasol. Cawn ein hatgoffa, felly, mai geiriau agoriadol y weddi yw, '*Ein* Tad ...' Mae Trystan yn barod i gydnabod ei ddyled i ddiwinyddion megis John Stott a Tom Wright, dau ddiwynydd sydd ar yr ochr 'geidwadol', ond sydd, er hynny, yn credu'n gryf yn oblygiadau cymdeithasol, ymarferol dysgeidiaeth Iesu.

A throi at gorff y llyfr, yr hyn a wna Trystan yw trafod y weddi fesul cymal, gan roi pennod i bob un. Galwad i goleddu'r 'gwrth-ddiwylliant' sy'n cael ei osod allan yn y Bregeth ar y Mynydd ar ei hyd yw'r ail bennod, 'Sancteiddier dy enw'. Nid syniad arallfydol mo hynny, meddai, ond yn hytrach rydym i sancteiddio enw Duw trwy wneud ei gymeriad yn hysbys: 'achubwr, rhyddhäwr a gwaredwr i'r gorthrymedig' yw Ef (t.39). Gan hynny, 'Mae sancteiddrwydd yn alwad radical i weithredu' (t.39). Braidd yn od, felly, yw dod ar draws y frawddeg yma: 'Prif elfen ein galwad fel pobl ffydd yw arddel credo a chyffes athrawiaethol' (t.38), yn arbennig yn wyneb yr hyn a ddywedir yn nes ymlaen, wrth drafod dameg Iesu am y rhai sy'n cael eu gwahodd o'r 'tu allan' i ymuno yn y wledd yn Nheyrnas Dduw: 'Ni ofynnir iddynt fanylu am eu credoau neu arwyddo a chytuno ar gyffes athrawiaethol neu unrhyw gred hirfaith.' (t.51).

'Deled dy deyrnas' yw testun y drydedd bennod, ac yma cawn ein hatgoffa mai rôl y Cristion yw aflonyddu'r byd: ei drawsffurfio. 'Teyrnas Duw yw'r deyrnas, ond mae'r broses o droi ei dyfodiad yn realiti yn bartneriaeth' (t.46). Yn wyneb yr holl anghyfiawnder a welwn yn y byd, mae cofio hynny'n ein rhyddhau oddi wrth y teimlad na allwn ni wneud dim, ac oddi wrth yr anobaith sy'n medru ein rhewi. Nid galwad i'w ganlyn 'hyd at ryw bwynt' yw galwad Iesu, ond galwad i uniaethu hyd yr eithaf â'r anghenus a'r rhai sy'n cael eu gormesu. Yn ei glasur o gyfrol, *Christian Counter-culture*, dadleuodd John Stott fod egwyddorion Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd yn troi ein meddylfryd ben i waered. Yn nhermau heddiw, gellid ystyried Crist fel y 'dylanwadwr' (*influencer*) pennaf!

Mae'r bennod 'Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol' yn arbennig o ffres a heriol. Ynddi tynnir sylw at y modd y mae ariangarwch ym myd masnach, a'r awch am elw ar draul darparu gwasanaeth da yn cyffwrdd â'n bywydau ar bob lefel. Ceir enghreifftiau hollol ddilys o hyn, ac maent yn haeddu llawer mwy o sylw na'r hyn sy'n bosibl mewn adolygiad fel hwn. Yn yr un modd, mae yna gyfoeth o ddeunydd ar gyfer grŵp trafod yn y penodau, 'Maddau i ni ein dyledion' a 'Nac arwain ni i brofedigaeth.' Er enghraifft, cawn ein hatgoffa o gymhlethdod y sefyllfa ddynol, a'r angen i fod yn raslon a maddeugar wrth geisio deall cefndir ambell droseddwr, a'r cymhellion y tu ôl i'w weithred. 'Pe bawn wedi byw eich bywyd chi, efallai buaswn wedi gwneud yr un dewisiadau ậ chi', meddai Jo Berry




wrth Patrick Magee, cyn-aelod o'r IRA a oedd yn gyfrifol am farwolaeth ei thad yn 1984.


Byddwn am gytuno'n llwyr â'r hyn y mae Trystan yn ei ddweud yma, ond rhaid gofyn pa mor bell ydym ni'n fodlon cerdded ar hyd llwybr yr hyn a elwir heddiw'n *no-blame culture*? Trafodwch! (Wrth fynd heibio, mae'n rhyfedd bod Trystan yn mynd mor bell â'r Aramaeg i ganfod iaith lle y mae'r gair 'maddeuant' yn golygu 'gadael i rywbeth fynd' (t.77). Dyna'i ystyr gwreiddiol yn y Gymraeg hefyd! Yn y Mabinogi, cawn yr ymadrodd yma: 'maddau'r cŵn', h.y. eu gollwng nhw'n rhydd.) Yn y bennod olaf, mae'r drafodaeth ar bŵer yn ei agweddau sefydliadol yn ddiddorol. Tasg yr eglwys yw herio sefydliadau sy'n camddefnyddio grym, meddai, a hynny drwy ymarfer y grym sy'n trawsnewid.

Gwaetha'r modd, mae nifer o wallau iaith ac ati na chafodd eu cywiro yn y gyfrol ac yn sicr byddai'r gwaith wedi bod ar ei ennill o gael ei olygu. Serch hynny, mae'n gyfrol wir ysbrydoledig, sy'n fwynglawdd cyfoethog ar gyfer y pregethwr a'r Cristion ymchwilgar, ac yn faes helaeth i sbarduno trafodaeth mewn grŵp. Mawr ddiolch i Trystan Owain Hughes a Gwilym Wyn Roberts am eu gwaith. Mynnwch gopi – bargen am £7.99!

*Glyn Tudwal Jones*
*Caerdydd*

## *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones
(Cyhoeddiadau'r Gair)




**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones**

### 9 'Boas a'r henuriaid yn annerch ei gilydd' (Ruth 4:9–12)

Yn ystod y ddwy astudiaeth ddiwethaf, fe welsom nad ydy'r gorffennol yn gorfod llywodraethu'r presennol na'r dyfodol chwaith. Fe welsom fod cynllun Naomi ar gyfer Ruth ym mhennod 3 yn benderfyniad oedd yn mynd i'r afael â sefyllfa'r ddwy ohonyn nhw. Gwelsom sut roedd Naomi wedi ei thrawsnewid o fod yn wraig weddw drist a chwerw i fod yn wraig sy'n llawn disgwyliadau a gobaith am y dyfodol. Roedd Naomi eto'n wraig fyddai'n medru gwisgo ystyr ei henw unwaith yn rhagor, sef 'prydferthwch. Gwelsom hefyd fod yr achubwr dienw wedi gweld bargen ym mhrynu'r tir oedd yn eiddo i deulu Naomi ond y byddai cymryd y merched dan ei ofal yn costio iddo. Ac felly gwrthod y cynnig a wnaeth, gan drosglwyddo'r hawl yn ffurfiol i Boas.

O'r dechrau, roedd ffyddlondeb a charedigrwydd Ruth i'w mam yng nghyfraith wedi cyffwrdd Boas ac o'r fan honno y mae ei gariad tuag ati'n tyfu. Gofal amdano'i hun oedd gan y perthynas dienw, ond cyflawni gweithred anrhydeddus a hyfryd oedd bwriad Boas.

Felly ym mhennod 4, adnodau 9–10, mae Boas yn troi oddi wrth y 'perthynas agosaf' ac yn cyfarch henuriaid y dref. Mae'n galw arnynt i fod yn dystion iddo gymryd meddiant o eiddo Elimelech, gŵr Naomi a thad Mahlon a Chilion. Ond mae Boas hefyd yn cadarnhau gweithred arall sy'n gysylltiedig â'r pryniant, sef sefyllfa'r ddwy wraig weddw: Ruth y Foabes a Naomi, ei mam yng nghyfraith. Clywn gadernid geiriau Boas drwy alw'r henuriaid yn dystion ei fod 'hefyd wedi prynu Ruth y Foabes, gweddw Mahlon, yn wraig imi'.

Ymateb yr henuriaid a phawb arall oedd yn y porth oedd dymuno bendith ar ben bendith i Boas a Ruth. Maent yn cyfeirio at Fethlehem â'r hen enw, Effrata, hefyd. Diddorol ydy ystyr Hebraeg Effrata, sef 'ffrwythlondeb cyflawn'. Dydy'r henuriaid ddim yn dal dim yn ôl o'u dymuniadau da, gan gymharu Ruth yma hefo Rachel a Lea, y ddwy a roddodd enedigaeth i feibion Jacob. Ac fel pe na bai'r gymhariaeth honno yn ddigon, mae adnod 12 yn cynnwys cyfeiriad at wraig arall, sef Tamar. Fel Ruth, cafodd amgylchiadau ac enw Tamar hithau eu hadfer (Genesis 38:6–29) ac mae hithau eto, fel Ruth, yn cael ei chynnwys yn achau Iesu Grist ym Mathew 1:3–5.

**Cwestiwn i'w drafod**

Pa le sydd yn yr hanes hyd yn hyn i amynedd ac ufudd-dod?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 10 Tachwedd am 7:30yh – Sul y Cofio**
Nia Roberts sy'n cyflwyno rhaglen arbennig i nodi Sul y Cofio o Eglwys Gatholig San Pedr, Caerdydd. Bydd y canu mawl dan arweiniad Delyth Medi Lloyd, gyda Jeff Howard yn cyfeilio ar yr organ. Cawn fwynhau perfformiadau gan Siwan Henderson, Cantorion Osian Rowlands a Bechgyn Bro Taf.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 10 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 10 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Siân Howys a Ffion Fielding o Brosiect Hawlio Heddwch




**Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru**

# O’r Swyddfa

## Newid Cyfnod: Cynhadledd Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop: Budapest, Hwngari, 25–8 Medi 2024



Cynrychiolwyr eglwysi Bedyddiedig yn Budapest

Pleser o’r mwyaf oedd cael bod yn bresennol yng nghynhadledd flynyddol Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop a gynhaliwyd eleni yn Budapest. Cawsom groeso arbennig gan Undeb Bedyddwyr Hwngari, undeb sy’n cynnwys tua 300 o eglwysi a chanddynt 20,000–25,000 o aelodau yn addoli bob Sul.

Mae’r Ffederasiwn yn cynnwys Bedyddwyr o bob rhan o Ewrop, yn ogystal â’r Dwyrain Canol a Chanolbarth Asia. Roedd cynrychiolaeth gref yn bresennol a phawb mewn hwyliau da, ond yn naturiol roedd y rhyfeloedd yn Syria, Wcráin a Rwsia wedi taflu cysgod dros y gynhadledd, ynghyd â’r glanhau ethnig yn Nagorno-Karabakh a’r datblygiadau trist yn y Dwyrain Canol. Parhawn i weddïo dros y gwledydd hyn, yn ogystal â phawb sydd yn cynnig cymorth dyngarol I’r rhai sy’n dioddef.

Roedd y gynhadledd yn cynnig amrywiaeth o gyfarfodydd llawn a gweithdai dewisol, ac roedd hi’n dda gweld arweinwyr ifainc yn bresennol a chael clywed am ymdrechion pwrpasol i gyrraedd cenhedlaeth newydd â neges yr Efengyl. Yn ogystal, cawsom ein herio i fuddsoddi fwyfwy mewn gwaith plant a phobl ifainc.

Thema’r gynhadledd oedd ‘Newid Cyfnod’ ac yn sicr dyma thema sy’n berthnasol i Gristnogion ar draws Ewrop a thu hwnt gan fod seciwlariaeth a’r cynnydd yn y gefnogaeth wleidyddol i’r asgell dde eithafol yn destun gofid i sawl gwlad. Gwelir newid ar waith ym maes addysg ddiwinyddol hefyd a chawsom gyfle mewn un gweithdy, ‘Ailddychmygu addysg ddiwinyddol’, i ystyried y datblygiadau diweddaraf yn ein colegau diwinyddol a’r hyn sydd angen ei addasu ar gyfer y dyfodol. Ond er yr holl newidiadau a wynebir gennym heddiw, cawsom ein hatgoffa droeon yn ystod y gynhadledd mai ein ffocws bob amser yw’r Un sydd yn ddigyfnewid, sef ein Harglwydd Iesu, a bod yn rhaid i ninnau ddilyn ei esiampl gan gofio am y modd y gwacaodd ei hun er ein mwyn.

**Ordeinio a Sefydlu**: Dymunwn fendith yr Arglwydd ar Gruffudd Jenkins a Hannah Smethurst a hwythau newydd gael eu hordenio a’u sefydlu fel Gweinidogion yr Efengyl. Ordeiniwyd Gruffudd yn Weinidog ar Eglwys Maescanner, Dafen, ar 5 Hydref a’r wythnos ganlynol, ar 12 Hydref, ordeiniwyd a sefydlwyd Hannah yn Weinidog Cyswllt yng Nghaersalem, Caernarfon. Dyma destun diolch yn sicr ac estynnwn ein llongyfarchiadau gwresocaf i Gruffudd a Hannah!

**Myfyrwyr**: Dymunwn yn dda hefyd i fyfyrwyr gweinidogaethol UBC sydd newydd gychwyn ar flwyddyn academaidd newydd, sef Michael Thomas-Bizjack, Natalie Morgan, Paula Hughes, Lynn Lewis a Nikki Wheeler.

**Apêl Cymorth Cristnogol Undeb Bedyddwyr Cymru 2024**: Diolch yn fawr i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu tuag at ein hapêl i godi arian i Zimbabwe ac a gynhaliodd amrywiaeth o weithgareddau i ysgogi ac ennyn diddordeb yn yr achos teilwng hwn. Un o’r gweithgareddau hynny oedd yr Her Gerdded, sef taith sy’n cyfateb i hyd Cymru a Zimbabwe, pellter o 750 o filltiroedd. Bellach rydym wedi cyrraedd a rhagori ar y nod, ac mae sawl un yn ein plith wedi elwa o’r ymarfer corff! Mawr obeithir y bydd modd i Zimbabwe elwa o’n hymdrechion i godi arian gan fod yr angen yn fawr. Mae’n wlad sy’n dioddef o brinder bwyd o ganlyniad i’r ffenomen hinsawdd El Niño, a bu Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda ffermwyr lleol yn Zimbabwe er mwyn cynnig hyfforddiant i dyfu cnydau mwy gwydn. Yn ogystal mae’r wlad yn fregus oherwydd ansefydlogrwydd economaidd, afiechydon megis colera, a’r cynnydd yn y camddefnydd o gyffuriau ac alcohol ymhlith y bobl ifainc.




Ymgyrch ‘Cerdded’ Cymorth Cristnogol

Bydd yr apêl yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn ac rydym yn gobeithio rhoi un hwb arall i’r ymdrechion codi arian cyn hynny. Yn ogystal â’r deunydd sydd eisoes wedi cael ei ddosbarthu mae yna gyfres o fideos ar gael ar sianel YouTube UBC, ac yn eu plith y mae un sy’n cynnwys pwyntiau gweddi ar gyfer Zimbabwe (Sgwrs gyda Chymorth Cristnogol Zimbabwe: Sut i Weddïo).

**Ffarwelio a Chroesawu Dros Dro:** Dymunwn yn dda i Sioned Graves, Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol, wrth iddi ddechrau ei chyfnod mamolaeth a’r un pryd estynnwn groeso cynnes ’nôl i Carwyn Graves a fydd yn cyflawni’r swyddogaeth hon dros dro yn absenoldeb Sioned. Dymuniadau gorau hefyd i Dr Christian Tucker-Williams, Uwch-gydlynydd y Gorfforaeth, a fydd yn cychwyn ar gyfnod tadolaeth dros yr wythnosau nesaf. Deisyfwn fendith Duw ar ein teuluoedd ifainc.

**Adroddiad 2041**: Mae’r gwaith o greu Sefydliadau Corfforaethol Elusennol Rhanbarthol yn parhau a’r gweithgor bellach wedi bod yn ymgynghori â’r Cymanfaoedd. Bu’r adborth yn hynod galonogol. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous a fydd yn ein cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau cenhadol lleol wrth inni ymateb i her ein cyfnod.

*Judith Morris*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*

## Gweddi ar gyfer Sul y Cofio

Arglwydd, cofiwn yr adeg hon am yr holl bobl a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd –
gwŷr ifanc a menywod a wynebodd fwled a magnel,
a gollodd chwys a gwaed, a anafwyd mewn corff, meddwl ac enaid,
a gollodd eu bywydau yn y drin.

Gweddïwn dros deuluoedd y rhai a gollwyd:
mamau a thadau, gwragedd a phlant a dreuliodd oes yn galaru am eu hanwyliaid a gollwyd ar faes y gad.
Wrth gofio'u hymdrech a meddwl am y teuluoedd hynny sy'n bryderus am eu hanwyliaid o hyd, gweddïwn y bydd dy dangnefedd di, sydd uwchlaw pob deall, yn gweinidogaethu i bob ofn, galar a phoen eto heddiw.

Arglwydd, agor fy llygaid fel y medraf weld anghenion pobl eraill.
Agor fy nghlustiau fel y medraf glywed eu cri.
Agor fy nghalon fel na fydd angen iddynt fod heb ymgeledd.

Paid â gadael i mi fod ag ofn amddiffyn y gwan oherwydd dicllonedd y cryf.
Dangos i mi lle mae angen ffydd, gobaith a chariad.
Defnyddia fi i'w dwyn i'r mannau hynny sy'n anghenus.
Felly, agor fy llygaid a'm clustiau fel y medraf yn ystod y dydd hwn gyflawni rhyw weithgarwch o heddwch er dy fwyn. Amen.

Cristnogaeth 21

**Cynhadledd Flynyddol 2024**

**Ar-lein:** trwy gyfrwng Zoom.
9.30yb - 12.00yp, Dydd Sadwrn, 16 Tachwedd 2024.

Sesiwn 1: **Cofio'r Gorffennol**: arwyddocâd y cof mewn astudiaethau diweddar ar y Testament Newydd.
– Yr Athro Catrin Haf Williams.

Sesiwn 2: **Her yr Eglwys Werdd:**
– Delyth Higgins (A Rocha), Fiona Gannon (Capel y Nant)

Sesiwn 3: **Cyfarfod blynyddol yr elusen.**



Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:
cristnogaeth21@gmail.com cyn ddydd Llun, 11 Tachwedd.
Anfonir dolen a rhaglen atoch yn ystod yr wythnos.

## ARFOGI 24

**Mae ARFOGI yn ddigwyddiad blynyddol i annog ac arfogi oedolion ifanc o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae croeso i fyfyrwyr, teuluoedd ifanc ac unrhyw un yn eu 20au a'u 30au!**


Wrth i ni ddod at ein gilydd eto i addoli, gwrando ar Air Duw a mwynhau cymdeithas gynnes, ein gweddi yw y cawn ein trawsnewid yn ei bresenoldeb ac y byddwn yn gadael ARFOGI 24 wedi ein hannog yn ddwfn i fyw yn llwyr i'r Arglwydd, wedi ein harfogi i chwarae ein rhan a gyda disgwyliad newydd i weld Duw yn symud yn nerthol yn ein cymunedau, ein cenedl a'n byd.

**Manylion ARFOGI 24**
Bydd y penwythnos yn cychwyn ar y nos Wener gyda swper i bawb am 6.45yh, ac yn dod i ben ar ôl cinio dydd Sul. Pris y penwythnos cyfan yw £72 ac mae hyn yn cynnwys bwyd a 2 noson o lety yn Ngholeg y Bala neu Fryn y Groes. £25 yw'r pris i ddod am y dydd Sadwrn yn unig. Os yw talu'r swm llawn yn debygol o fod yn anodd, cysyllta â ni am sgwrs gyfrinachol. Mae croeso hefyd i bobl wneud eu trefniadau llety eu hunain.

Bydd gofal plant ar gael bob sesiwn hefyd, felly plis noda wrth gofrestru os wyt ti angen y gwasanaeth yma.

Gwna'n siŵr dy fod yn ymuno â ni am benwythnos gwych gyda'n gilydd!

Mae ffurflenni cofrestru ar gael yma: https://souledoutcymru.net/ffurflen-gofrestru-arfogi-24/




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru